

David Howes
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Canolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl David Howes,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Abertawe wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
📠 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL13 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydwethredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch hwn yn cynnwys:

- gweithgarwch â phwyslais penodol ar y gwasanaethau plant a gynhaliwyd mewn perthynas â'r broses adolygu annibynnol, gan ystyried yn benodol y ffordd y mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hybu llais y plentyn; Medi 2019
- gweithgarwch â phwyslais penodol ar y gwasanaethau oedolion, mewn perthynas â gwasanaethau i ofalwyr pobl hŷn a gynhaliwyd ym mis Awst a mis Medi 2019
- gweithgarwch â phwyslais penodol ar y gwasanaethau oedolion mewn perthynas â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) a diogelu oedolion, a gynhaliwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2019
- gweithgarwch ymgysylltu, mewn perthynas â phobl hŷn (65 oed a throsodd), a gynhaliwyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019
- cyfarfodydd adolygu perfformiad ac ymarfer a gynhaliwyd gyda phenaethiaid gwasanaethau oedolion a phlant.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi trafod y gweithgarwch a restrir uchod â chi ac felly mae ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau fel y cawsant eu rhannu â chi.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Mae dull gweithredu Cyngor Abertawe wedi cael ei lywio gan waith i ailfodelu agweddau pwysig ar ddarparu gwasanaethau a arweiniodd yn ddiweddar at greu'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn lle'r Gyfarwyddiaeth Pobl gynt. O ganlyniad mae gwasanaethau wedi cael eu haildrefnu mewn modd cadarnhaol gyda'r nod o sicrhau canlyniadau gwell i bobl. Mae cyfres o adolygiadau o'r gwasanaethau oedolion yn ymwneud â gofal cartref, gofal preswyl, ailalluogi a gofal seibiant, ynghyd â gwasanaethau i oedolion iau, yn parhau i lywio'r broses hon ac mae'r cynnig i ailstrwythuro'r gwasanaethau oedolion er mwyn cyd-fynd â'r dull gweithredu hwn yn parhau i gael ei ystyried o ddifrif. Er bod 'cefnogi pobl' yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol sydd felly'n hwyluso cymorth i rai gwasanaethau gofal ychwanegol, mae'r cyfrifoldeb dros dai yn perthyn i ran arall o'r awdurdod sy'n golygu y gall rhai elfennau o ddarparu gwasanaethau fod yn fwy heriol i'w rhoi ar waith gan nad ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd yn llwyr.

Mae ailfodelu gwasanaethau gofal cartref mewnol ac ailgomisiynu darparwyr allanol wedi arwain at rai gwelliannau, yn enwedig mewn perthynas â thrawsnewid o ddull 'amser a thasgau' mwy traddodiadol wrth froceru i un sy'n hyrwyddo hyblygrwydd wrth ddiwallu anghenion unigol pobl. Yn debyg i awdurdodau lleol eraill, mae Abertawe yn cydnabod bod heriau wrth recriwtio a chadw staff o hyd ac y gall gwasanaethau gael traferth wrth geisio darparu gofal mewn rhai ardaloedd lleol sy'n anos eu cyrraedd, gan olygu efallai na fydd rhai pobl yn cael cymorth gofal cymdeithasol yn ddigon amserol.

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n galed o fewn fframwaith ei Strategaeth Lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal i ddadansoddi a deall y niferoedd amrywiol o blant sy'n derbyn gofal, sydd wedi dangos cynnydd bach yn ystod y chwarter diwethaf. Cafodd y gwerthusiad hwn ei lywio drwy waith olrhain effeithiol y panel sefydlogrwydd ac mae gwersi cynnar wedi cael eu dysgu drwy'r panel dargyfeirio misol. Yn ddiweddar, llwyddodd Cyngor Abertawe i gynyddu cyfran y plant a gaiff eu lleoli'n agosach at eu cartrefi yn ogystal â nifer y plant a gaiff eu lleoli gyda gofalwyr maeth mewnol.

Cadarnhaodd gweithgarwch â phwyslais penodol AGC mewn perthynas â diogelu yn y gwasanaethau oedolion fod atgyfeiriadau diogelu yn cael eu prosesu'n amserol, bod gwaith partneriaeth yn effeithiol ac y cymerir camau i ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg. Fodd bynnag, nid oedd achosion diogelu wedi cael eu harchwilio am beth amser cyn ein hymweliad a gwelsom dystiolaeth o oedi mewn ymchwiliadau nad oeddent yn rhai troseddol. Cawsom wybod bod yr awdurdod lleol yn ystyried ffyrdd o wella'r broses diogelu oedolion a'i fod yn gweithio ar fframwaith archwilio.

Ar hyn o bryd, caiff y broses ddiogelu ei chynnal gan dimau mewn ardaloedd lleol sydd wedi peri rhai heriau i'r awdurdod lleol o ran sicrhau cysondeb penderfyniadau a gaiff eu gwneud ar sail trothwyon ac ansawdd cyffredinol gwaith. Mae opsiynau ar gyfer creu tîm diogelu penodol fel rhan o'r gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaethau oedolion yn cael eu hystyried o ddifrif. Rhagwelir y bydd y trefniadau newydd hyn yn cynnwys adnodd sgrinio gwell i'w ddefnyddio wrth y drws ffyrnt.

Ar y cyfan, mae nifer y plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn parhau i fod yn gymharol sefydlog, er bod cyfraddau ailgofrestru yn bryder o hyd ac mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio'n galed i ddeall y rhesymau y tu ôl i hyn. Mae cynadleddau achosion ac adolygiadau amddiffyn plant yn parhau i gael eu cynnal o fewn amserlenni statudol.

Mae aelodau etholedig yn gwbl ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol ac maent yn parhau i fod yn rhan weithredol o ganfod atebion a monitro datblygiadau. Mae'r holl aelodau etholedig wedi cwblhau Hyfforddiant ar Ddiogelu Oedolion a Phlant.

Pobl

Mae gweithlu'r awdurdod yn deall y weledigaeth a rennir sy'n deillio o ddull gweithredu seiliedig ar gryfderau, gyda fframwaith arferion cyfathrebu cydweithredol sy'n cael ei ymgorffori'n fwyfwy yn y gwasanaethau oedolion, ac mae'r model 'Signs of Safety' bellach wedi'i sefydlu'n gadarn yn y gwasanaethau plant. Mae'r dulliau hyn yn cyd-fynd yn dda â Deddf 2014, gyda phwyslais ar sgrysiâu am 'yr hyn sy'n bwysig' a chanlyniadau personol. Cadarnhaodd ein gweithgareddau ymgysylltu fod gan yr awdurdod weithlu ymroddedig a phroffesiynol, gyda goruchwyliaeth gan reolwyr yn sicrhau bod ansawdd a dulliau gweithredu yn gyson mewn nifer o feysydd, er bod eithriadau i hyn, e.e. diogelu oedolion.

Cafodd cyfyngiadau ariannol mewn perthynas â recriwtio gweithwyr cymdeithasol eu llacio tua diwedd 2019, ac mae gwaith i recriwtio ar gyfer ôl-groniad o swyddi gwag mewn hybiau gwasanaethau oedolion wedi ailddechrau. Cymeradwywyd polisi cadw yn ddiweddar sy'n golygu ei bod bellach yn bosibl i'r rhai sydd wedi'u cyflogi am ddwy flynedd neu fwy ddatblygu ymhellach. Rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol a hir-ddisgwyliedig ar lefelau cymharol uchel o drosiant sydd i'w gweld mewn rhai meysydd gwasanaeth ar hyn

o bryd. Ychydig o ddefnydd a wneir o staff asiantaeth yn y gwasanaethau plant o hyd. Yn ddiweddar, datblygwyd strategaeth llesiant y gweithlu sy'n sail i ddull mwy ystwyth yn seiliedig ar waith i fonitro allbwn.

Bydd recriwtio pobl i rolau pwysig penaethiaid gwasanaethau plant ac oedolion yn allweddol er mwyn sicrhau bod mentrau parhaus yn cael eu hymgorffori ac i oruchwylio'r gwaith arfaethedig o ailfodelu'r ffordd y caiff gwasanaethau oedolion eu darparu.

Cydnabyddir bod angen datblygu gweledigaeth strategol glir mewn perthynas â gofalwyr a'i rhoi ar waith. Er bod llawer o'r asesiadau gofalwyr a welsom yn ystod ein gweithgarwch yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r unigolyn dan sylw, ar y cyfan roedd gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr asesiadau gofalwyr.

Yn ogystal â hyn, mae angen adolygu'r ystod o gyfleoedd i ofalwyr gael seibiannau byr ac ystyried ehangu'r opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd, yn enwedig i'r gofalwyr hynny sy'n gofalu am bobl â dementia y mae angen gofal nyrsio arnynt. Yn ystod ein gwerthusiad o wasanaethau i ofalwyr pobl hŷn, soniodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw am effaith andwyol cyllid byrdymor rhai gwasanaethau a'r bobl a gyflogir i gefnogi gofalwyr.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lefelau taliadau uniongyrchol wedi bod yn sefydlog am beth amser a bod ei ddull presennol yn codi cwestiynau o ran a yw'n darparu'r lefelau priodol o gymorth unigol ar hyn o bryd. Nodwyd bod hwn yn faes sy'n peri risg a bod cynllun gwella ar waith sy'n ceisio gwella canlyniadau i'r bobl yn yr ardal.

Dylai Cyngor Abertawe wella ei systemau ar gyfer casglu data a sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr bod gan yr awdurdod lleol wybodaeth gywir a pherthnasol i lywio ymarfer a'r gwasanaethau a ddarperir, ac i nodi bylchau mewn ymarfer a'r gwasanaethau a ddarperir, mewn perthynas ag agweddau megis y ddarpariaeth i ofalwyr pobl hŷn. Mae'r awdurdod lleol yn cynllunio ar gyfer rhoi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith ym mis Mehefin 2020. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd pellach i ystyried sut y gall y system gynorthwyo gyda choladu data perthnasol er mwyn cefnogi ymarfer a phrosesau sicrhau ansawdd.

Roedd yn glir o'n gweithgarwch â swyddogion adolygu annibynnol eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd rhoi'r plentyn wrth wraidd y broses adolygu. Roeddent yn cydnabod bod angen cefnogi plant i gyfranogi'n llawn yn eu hadolygiadau a mynegi eu barn, gan ddangos ffyrdd creadigol ac arloesol o ymgysylltu â phlant er mwyn sicrhau bod pobl yn gwrando ar eu barn a'u dymuniadau ac yn gweithredu arnynt. Gwelsom fod llesiant plant yn cael ei hybu drwy ddefnyddio eiriolwyr, a chyfieithwyr pan oedd angen, er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael cyfle i fynegi ei farn a bod pobl yn gwrando arno.

Un elfen o'r rhaglen wella yn y gwasanaethau plant a theuluoedd yw ymgorffori sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' ymhellach mewn ymarfer o ddydd i ddydd, a sefydlwyd tasglu er mwyn chwilio am ffyrdd o wella cyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau.

Mae Cyngor Abertawe yn parhau i roi Safonau'r Gymraeg ar waith, ac mae ymwybyddiaeth dda o'r rhain ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, a chaiff y Cynnig Rhagweithiol ei wneud i ddinasyddion. Mae heriau wrth geisio diwallu anghenion pobl gyda'r nifer cyfyngedig o staff sy'n siarad Cymraeg, fel yr adlewyrchwyd yn yr asesiad poblogaeth rhanbarthol. Mewn perthynas â gofalwyr, gwelsom nad oedd darpariaeth y Cynnig

Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei chofnodi bob amser ar ffeiliau achos i ddangos bod hyn yn digwydd.

Mae adolygiad o ddatblygiad y gweithlu yn canolbwyntio ar anghenion hyfforddiant y gweithlu gofal cymdeithasol o ran y Gymraeg, ac mae trefniadau wrth gefn wrth y drws ffrynt er mwyn sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei roi ar waith yn ddyddiol, naill ai drwy staff gofal cymdeithasol sydd ar gael neu drwy wasanaethau cwsmeriaid corfforaethol.

Un o gryfderau'r awdurdod lleol yw ei ymrwymiad parhaus i gydgyhyrchu a chyfranogiad, sydd wedi'i nodi mewn nifer o gynlluniau corfforaethol. Caiff y rhain eu rhoi ar waith drwy raglen waith glir a nodir ar gyfer pob maes gwasanaeth, y mae gwirfoddolwyr yn ategu'r gwaith o'u cyflawni.

Mae Cyngor Abertawe wedi cydnabod faint o her y mae'n ei hwynebu wrth fynd i'r afael â nifer yr asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae sefydlu tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid penodol wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael ag ôl-groniad blaenorol.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Mae gwasanaethau cymdeithasol Abertawe wedi datblygu trefniadau drws ffrynt mewn gofal cymdeithasol i oedolion, a cheir cysylltiadau cryf â phartneriaid yn y sector iechyd a'r trydydd sector drwy Bwynt Mynediad Cyffredin. Cadarnhaodd ein gwaith ymgysylltu â gofalmwyr sy'n oedolion a phobl eraill y cysylltir â nhw drwy'r Pwynt Mynediad Cyffredin fod pobl yn gwrando arnynt ar y cyfan a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd eu profiadau mewn perthynas ag agweddau eraill yn fwy cymysg, gyda rhai pobl yn ansicr sut i gael gafael ar wybodaeth, cyngor neu gymorth yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, a soniodd eraill am yr anawsterau roeddent wedi'u cael wrth geisio cael gafael ar y gwasanaethau cymdeithasol. Siaradodd eraill am anawsterau wrth geisio "cysylltu â'r system" ond roeddent yn teimlo bod pethau'n haws unwaith roedd y gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt.

Dyweddodd rhai pobl wrthym y collwyd cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar er mwyn atal angen neu argyfwng unigol rhag gwaethygu. Weithiau nid oeddent yn gwybod p'un a oedd asiantaethau eraill wedi rhannu gwybodaeth â'r awdurdod lleol a fyddai wedi nodi y byddai ymyrraeth gynharach wedi bod yn fuddiol. Roedd pobl eraill yn teimlo nad oeddent yn ymwybodol o wasanaethau a gweithgareddau lleol, a nododd rhai fod lefel y gwasanaethau a'r gweithgareddau a oedd ar gael yn y gymuned yn dibynnu ar ble roeddech yn byw; hynny yw, roedd rhagor o weithgareddau cymunedol ar gael mewn rhai ardaloedd.

Dyweddodd rhai asiantaethau partner fod diffyg adnoddau i gefnogi ymyrraeth a llesiant pobl ac i atal anghenion rhag gwaethygu, a theimlwyd bod angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn effeithiol ar waith. Clywsom hefyd nad oedd rhai asiantaethau trydydd sector yn cael llawer o atgyfeiriadau gan wasanaethau oedolion yr

awdurdod lleol a'u bod yn teimlo nad oedd y timau oedolion bob amser yn gwybod pa adnoddau oedd ar gael yn y gymuned. Roedd pobl yn gadarnhaol wrth sôn am rôl cydlynwyr ardaloedd lleol o ran cysylltu â nhw a'u cefnogi. Mae gan yr awdurdod gynlluniau i ddatblygu'r trefniadau presennol er mwyn ymestyn yr agwedd hon ar y gwasanaethau a gynnigir ganddo.

Mae canlyniadau cyferbyniol ffigurau perfformiad 2017-2018 o gymharu â rhai 2018-2019 yn cadarnhau bod Cyngor Abertawe yn cefnogi mwy o bobl yn eu cartrefi eu hunain, gyda llai o bobl yn cael gofal mewn cartrefi gofal sy'n awgrymu bod y gwaith o ailfodelu elfennau o strwythur y gwasanaethau oedolion yn dechrau dwyn ffrwyth. Rhagwelir y bydd aildrefnu'r hybiau integredig presennol a gwaith ailstrwythuro arall sydd wedi'i gynllunio yn parhau i gefnogi'r datblygiadau cadarnhaol hyn, ymhén amser.

Mae lefelau uchel o weithgarwch wrth ddrws ffrynt y gwasanaethau plant a theuluoedd, er bod canran y gwaith a gaiff ei drosglwyddo ar gyfer asesiad ffurfiol yn parhau i symud i'r cyfeiriad cywir. Mae'r dull newydd o ddarparu cymorth cynnar yn cynnwys sefydlu Canolfannau Cymorth Cynnar, Gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal a threfniadau drws ffrynt integredig, a fydd yn cyd-daro â'r timau ardaloedd lleol presennol ac yn cynnwys yr heddlu, meddygon teulu, cymorth magu plant, gwasanaeth seicolegol a lles addysg. Yn sail i'r fenter hon mae £1.2M o gyllid trawsnewid, ac mae ei chynaliadwyedd tymor hwy yn gysylltiedig â'r gwaith llwyddiannus parhaus o roi'r Strategaeth Lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal yn Ddiogel ar waith.

Ym mis Mehefin 2019, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cenedlaethol ar y gwaith a wnaethom mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, ac rydym yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn. Byddwn yn monitro datblygiad strategaeth gomisiynu a sefyllfa'r farchnad sydd ei hangen yn fawr er mwyn mapio galw am wasanaethau yn y dyfodol ac i helpu i lywio'r farchnad.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Mae Polisi Sefydlogrwydd Cyngor Dinas Abertawe yn nodi amrywiaeth o fesurau i gefnogi sefydlogrwydd lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Mae Maethu Abertawe, Tîm Maethu'r Awdurdod Lleol, yn cydweithredu â chydweithwyr yn y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal, y Gwasanaeth Cynllunio Gofal â Chymorth a'r Gwasanaeth Adolygu Annibynnol. Defnyddir dull integredig sy'n seiliedig ar 'Signs of Safety' ac yn canolbwyntio ar atebion, gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau ac ymyriadau i gefnogi effeithiolrwydd adolygiadau diwedd lleoliad. Nid yw Maethu Abertawe yn casglu data mewn perthynas â chyfarfodydd tarfu pan ddaw lleoliadau i ben; bwriedir cyflwyno hyn yn 2020.

Partneriaethau

Arweiniodd y gwaith o aildrefnu ffiniau byrddau iechyd ym mis Ebrill at newid ôl-troed rhanbarthol. Mae'r gwaith paratoi trwyadl a wnaed gan y partneriaid dan sylw wedi lleihau achosion posibl o darfu, ac mae rhanbarth Gorllewin Morgannwg sydd wedi'i aildrefnu wedi gweld y newidiadau i'r ffiniau fel cyfle i atgyfnerthu ac arloesi rhai trefniadau partneriaeth.

Mae mwy a mwy o uwch-swyddogion yn gallu dangos sut mae'r cysylltiadau rhwng eu cyfrifoldebau cyfarwyddiaethol gwahanol yn cefnogi'r agenda gwasanaethau cymdeithasol ar draws yr awdurdod. Mae dealltwriaeth ehangach o fuddiannau gwaith atal yn y gymuned a'r effaith negyddol bosibl ar bobl a chyllidebau pan fydd oedi wrth gynllunio gwasanaethau ac ymateb, neu pan fydd hynny'n aneffeithiol.

O ganlyniad i'r adroddiad arolygu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 lle rhoddwyd gradd 'annigonol' i Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae Abertawe, penderfynwyd dadgyfuno'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y gallai awdurdodau partner ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn eu hardaloedd daearyddol eu hunain. Ymatebodd Cyngor Abertawe yn gyflym i'r cyfle hwn ac mae bellach wedi sefydlu ei wasanaeth troseddau ieuenctid ac ymyrryd yn gynnar annibynnol ei hun. Er bod y gwasanaeth yn ei gamau cynnar o hyd, mae'r rheolwyr a recriwtiwyd yn ddiweddar eisoes wedi llwyddo i integreiddio â gwasanaethau statudol yn well a rhoi mwy o bwyslais ar ddulliau ataliol. Mae'r awdurdod yn realistig o ran y gwelliannau parhaus sydd eu hangen ac mae'n gweithio tuag at gyflawni yn erbyn cynllun gwella manwl. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i fonitro'r trefniadau newydd hyn.

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel ranbarthol a lleol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu, ac mae'r fenter ranbarthol, 'O'r Ysbyty i'r Cartref', yn enghraifft ddiweddar o hyn yn cael ei wireddu yn ymarferol. Mae hyn yn ymwneud â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cydweithio'n agos â'i gilydd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu sgrinio'n briodol gan 'asesydd dibynadwy', gan sicrhau bod cydlynwyr wrth law i hwyluso'r broses o fynd â phobl adref yn ddi-oed. Yna caiff anghenion parhaus pob unigolyn eu hasesu'n ffurfiol yn ei gartref, o fewn pythefnos i dair wythnos.

Mae'r awdurdod lleol yn gyfrannwr rhagweithiol at y byrddau rhanbarthol ac mae agweddau ar ei agenda gwella a thrawsnewid yn cael eu datblygu drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Oedolion a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn